# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 17 Gorffennaf 2012** |
| Amser: | **09:00 – 10:30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Trevor Purt, Bwrdd Iechyd Hywel Dda**<br>**Sian-Marie James, Bwrdd Iechyd Hywel Dda** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

2.1 P-04-407 Achub Llety Gwarchod Kennard Court ar gyfer Pobl Hŷn

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a Thai Cymunedol Bron Afon i ofyn am eu barn ar bwnc y ddeiseb hon.
Cytunwyd y byddai'r tîm clercio yn rhoi gwybod i'r Aelodau am unrhyw ddatblygiadau sy'n sensitif o ran amser dros gyfnod y toriad.

2.2 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i:

Ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei barn ar y ddeiseb;
Cyfeirio'r ddeiseb at y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta.

Nodwyd hefyd y bydd adolygiad o'r fframwaith anhwylderau bwyd ymysg oedolion.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-04-405 Llawysgrif ganoloesol o Gyfreithiau Hywel Dda

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r ddeiseb hon a chytunodd i:
Ysgrifennu at y deisebydd yn ei longyfarch ar ei waith ar y mater hwn;
Cau'r ddeiseb gan fod y llawysgrif wedi'i brynu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

3.2 P-04-324 Dywedwch na i TAN 8 - mae ffermydd gwynt a llinellau pŵer foltedd uchel yn difetha ein cymuned

Yn sgîl cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r deisebwyr a oes ganddynt sylwadau cloi i'w gwneud cyn ystyried cau'r ddeiseb yn yr hydref.

3.3 P-03-273 Cludo tyrbini gwynt yn y Canolbarth

Yn sgîl cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru, cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r deisebwyr a oes ganddynt sylwadau cloi i'w gwneud cyn ystyried cau'r ddeiseb yn yr hydref.

3.4 P-04-343 Atal dinistrio amwynderau ar dir comin - Ynys Môn

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r ddeiseb hon a chytunodd i aros am ganlyniad yr ymchwiliad gan Arolygiaeth Wledig Cymru.

3.5 P-03-280 Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

3.6 P-04-334 Uned Arennol Newydd yn Ysbyty Tywysog Siarl

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r mater hwn a chytunodd i aros am benderfyniad ar uned newydd a ddisgwylir ym mis Awst 2012.

3.7 P-04-395 Dylai Ambiwlans Awyr Cymru gael arian gan y Llywodraeth

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y ddeiseb hon a chytunodd i ofyn am farn y deisebydd ar yr ohebiaeth.

3.8 P-04-402 Gweddïau Cyngor

Ystyriodd y Pwyllgor gyngor cyfreithiol mewn cysylltiad â phwnc y ddeiseb a chytunodd i aros am ymateb y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i lythyr cychwynnol y Cadeirydd.

## 4. Sesiwn Dystiolaeth Lafar

4.1 P-04-394 Achub ein Gwasanaethau - Ysbyty Tywysog Philip

4.2 P-04-367 Achub ein Gwasanaethau Ysbyty

Atebodd y tystion gwestiynau gan y Pwyllgor ar bwnc y deisebwyr.
Cytunodd y tystion i roi manylion i'r Pwyllgor am y dulliau cyfathrebu amrywiol a ddefnyddir yn y broses ymgysylltu.

## 5. Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau.

5.1 P-04-329 Rheoli sŵn o dyrbinau gwynt sy'n peri diflastod

5.2 P-04-341 Gwastraff a Llosgi

## 6. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor i:
Annog y deisebwyr i ymgysylltu â'r broses ymgynghori pan fydd yn dechrau;
Cyflwyno crynodeb o'r pwyntiau allweddol y mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai'r ymgynghoriad fynd i'r afael â nhw.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.